

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

**Dyddiad cau'r ymgynghoriad: 6 Mawrth 2015  
Rhaid i'ch sylwadau ein cyrraedd erbyn y dyddiad hwnnw**

## **Rhaglen Fuddsoddi mewn Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FaCIP)**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ein cynigion i newid y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu arian ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

Rydym am sicrhau bod y broses o fuddsoddi er mwyn rheoli perygl llifogydd yn gliriach ac yn fwy cyson. Rydym am helpu i nodi ardaloedd mewn perygl fel y gellir dechrau cynllunio ar gyfer yr hirdymor a rhoi cynlluniau ac arferion rheoli tir priodol ar waith. Wrth wneud hyn rydym yn gobeithio codi ymwybyddiaeth o lifogydd yn yr ardaloedd hynny, lleihau perygl llifogydd a datblygu gallu cymunedau i'w gwrthsefyll.

Gall y wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau hawl i weld gwybodaeth, sef Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998 yn bennaf.

Os hoffech i'ch ymateb cyfan, neu ran ohono, gael ei drin/thrin yn gyfrinachol, esboniwch pam rydych o'r farn ei fod/bod yn gyfrinachol.

Os derbynnir cais i ddatgelu'r wybodaeth a ddarparwyd gennych, ystyrir eich esboniad ynglŷn â pham rydych o'r farn ei bod yn gyfrinachol, ond ni ellir rhoi unrhyw sicrwydd y gellir diogelu cyfrinachedd. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a grëir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n rhwymo'r Adran.

Bydd Llywodraeth Cymru yn prosesu eich data personol (enw a chyfeiriad ac unrhyw ddeunydd arall a allai nodi pwy ydych) yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, golyga hyn na chaiff eich data personol ei ddatgelu i drydydd partïon.

<b>Ticiwch os hoffech i ni gadw eich ymateb yn gyfrinachol.</b>	

Enw: **Jeremy Parr - Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Perygl Gweithredol**

Ticiwch os ydych yn ymateb ar ran eich sefydliad.

X

Enw'r Sefydliad **Cyfoeth Naturiol Cymru**

Cyfeiriad:

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Ticiwch y blwch sy'n eich disgrifio chi orau fel ymatebydd. Os ydych wedi ticio 'Arall', rhowch fanylion yn y blwch isod.

<input type="checkbox"/>	Plentyn/Person Ifanc	<input type="checkbox"/>	Oedolyn	<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>	Awdurdod Lleol	<input type="checkbox"/>	Sefydliad	<input type="checkbox"/>
<input checked="" type="checkbox"/>	Cyfoeth Naturiol Cymru	<input type="checkbox"/>	Arall	<input type="checkbox"/>

Rhowch fanylion:

C1. A ydych yn cytuno â'r angen cyffredinol am Raglen Fuddsoddi mewn Llifogydd ac Erydu Arfordirol fel y nodwyd yn adrannau 2 a 3 uchod?

<input checked="" type="checkbox"/> Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/> Cytuno	<input type="checkbox"/> Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
<input type="checkbox"/> Anghytuno	<input type="checkbox"/> Anghytuno'n gryf	

Sylwadau: **Adrannau 2 a 3 o'r Ddogfen ymgynghori**

### Y cydsyniad cyffredinol

Ydyn, rydym yn cytuno mewn egwyddor â'r angen am Raglen Fuddsoddi mewn Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FaCIP) fel y nodwyd yn Adrannau 2 a 3. Credwn y gallai rhaglen o'r fath wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgarwch rheoli perygl llifogydd ledled Cymru yn sylweddol. Gall hefyd helpu'r rhai yr effeithir arnynt gan berygl llifogydd i ddeall y dewisiadau a'r penderfyniadau a wneir i reoli'r peryglon hyn yn well. Hoffem dynnu sylw yn benodol at yr agweddau canlynol, y cyfeirir at lawer ohonynt yn y ddogfen ymgynghori:

### Blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf

Byddem yn croesawu ac yn cefnogi'r cysyniad o flaenoriaethu buddsoddiad cenedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd mewn lleoliadau (cymunedau) *'sy'n wynebu'r perygl mwyaf'*. Mae hyn yn un o gonglfeini hanfodol gwaith rheoli perygl llifogydd effeithlon ac effeithiol. Mae brawddeg gyntaf y ddogfen ymgynghori yn nodi:

*'Llywodraeth Cymru yw prif ariannwr y gwaith o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru'.*

Felly, mae'n hanfodol bod y buddsoddiad cenedlaethol hwn yn cael ei gyfeirio a'i ddefnyddio i sicrhau manteision mwyaf posibl i Gymru gyfan a bod y cymunedau *'sydd yn y perygl mwyaf'* yn cael eu nodi mewn ffordd gyson ledled Cymru fel y gellir eu cymharu *'tebyg am debyg'* yn deg.

Gall peryglon llifogydd lleol fod yn sylweddol yn lleol ond, wrth ddyrannu adnoddau ac arian cenedlaethol, mae'n rhaid ystyried a blaenoriaethu'r peryglon lleol hyn yn y cyd-destun cenedlaethol.

### Tryloywder ac eglurder prosesau gwneud penderfyniadau

Mae posibilrwydd y gallai'r dull gweithredu arfaethedig hefyd wneud y methodolegau a ddefnyddir i asesu perygl yn fwy eglur, yn ogystal â'r penderfyniadau dilynol ynghylch dyrannu arian. Mae hyn i'w groesawu.

Mae sicrhau mwy o eglurder, ynghyd â mwy o dryloywder a gwell mynediad at wybodaeth, hefyd yn gyfle i wella dealltwriaeth leol o benderfyniadau a wneir ynghylch y perygl lleol. Bydd yn helpu cymunedau lleol, cynrychiolwyr lleol a gwneuthurwyr penderfyniadau i ddeall yn well sut mae eu perygl llifogydd lleol yn cymharu â pheryglon llifogydd eraill ledled Cymru. Bydd hyn yn helpu cymunedau lleol i ddeall yn well sut mae penderfyniadau ynghylch buddsoddi (neu beidio â buddsoddi) sy'n effeithio arnynt yn cael eu gwneud a pham.

### **Ystyried ymyriadau rheoli y tu hwnt i'r ardal perygl lleol a ddiffiniwyd.**

Er ei bod yn briodol canolbwyntio buddsoddiad cenedlaethol ar y lleoliadau (cymunedau) sy'n wynebu'r perygl mwyaf, ni ddylai ffiniau gofodol yr ardal perygl lleol a ddiffiniwyd gyfyngu ar yr ystyriaeth a roddir i ymyriadau i reoli'r risgiau hyn. Bydd angen ymyriadau i reoli perygl lleol yn yr ardal leol (megis gwaith ar amddiffynfeydd neu systemau draenio) ond gall gwaith a wneir ymhell o'r lleoliad sydd mewn perygl, megis darparu storfeydd llifogydd i fyny'r afon, newidiadau i arferion rheoli tir yn y dalgylch i fyny'r afon a gwaith ar systemau draenio trefol ymhell o'r man sydd mewn perygl, hefyd fod yn fuddiol. O ran yr arfordir gallai hyn gynnwys rheoli gwaddod a strwythurau sy'n effeithio ar brosesau arfordirol i fyny'r driff o'r ardal sydd mewn perygl.

Rydym yn croesawu ac yn cefnogi'r gosodiad canlynol o Dudalen 8 o'r ddogfen ymgynghori, sef:

*'Dylid ystyried dewisiadau eraill yn hytrach na seilwaith amddiffyn caled lle bo'n briodol. Gallai hyn gynnwys defnyddio ein hadnoddau naturiol mewn ffordd fwy buddiol nid yn unig i leihau'r perygl o lifogydd, ond hefyd i sicrhau manteision amgylcheddol ac economaidd ehangach'.*

### **Cynnig ar gyfer canllawiau arfarnu sy'n gyson yn genedlaethol**

Rydym yn croesawu ac yn cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i weithio gydag Awdurdodau Rheoli Perygl i lunio canllawiau arfarnu sy'n gyson yn genedlaethol. Maent yn elfen hanfodol o raglen fuddsoddi genedlaethol gyson a chydlynol sy'n seiliedig ar risg.

Dylai'r gwaith hwn sicrhau y caiff elfennau cadarnhaol y canllawiau presennol eu cadw a bod y canllawiau diwygiedig, ar y cyfan, yn diwallu anghenion Cymru ac Awdurdodau Rheoli Perygl yng Nghymru. Dylai'r adolygiad hwn sicrhau y caiff prosiectau eu cyflawni yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol a dylem fod yn ceisio cyflawni canlyniadau amgylcheddol lluosog drwy holl brosiectau Awdurdodau Rheoli Perygl. Gyda gwaith dylunio amgylcheddol da gall cynlluniau fod yn sbardun i adfywio mewn rhai ardaloedd. Dylai'r canllawiau arfarnu diwygiedig ei gwneud yn bosibl i ystyriaeth briodol gael ei rhoi i amrywiaeth eang o fanteision buddsoddi yn ogystal ag amrywiaeth eang o ymyriadau rheoli, megis rheoli perygl llifogydd naturiol. Tra bydd angen ystyried hefyd y gall mesur y manteision a'r ymyriadau hyn fod yn heriol.

Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Rheoli Perygl eraill i lunio canllawiau arfarnu sy'n gyson yn genedlaethol.

### **Mae'n rhaid i FaCIP fod yn seiliedig ar dystiolaeth**

Mae'n rhaid i FaCIP fod yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio'n effeithlon a meithrin hyder cymunedau yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n rhaid defnyddio'r dull hwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth i nodi a mesur y perygl, yn ogystal ag effeithiolrwydd cymharol yr opsiynau a'r dewisiadau sydd ar gael i reoli'r peryglon hyn. Bydd angen ystyried hyn yn y cynnig i lunio canllawiau arfarnu sy'n gyson yn genedlaethol.

### **Mae'n rhaid cysoni FaCIP â pholisïau, cynlluniau a mentrau strategol**

Mae'n rhaid i FaCIP hyrwyddo penderfyniadau ynghylch buddsoddi sy'n gyson â'r ysgogwyr polisi strategol, yn enwedig:

- Cynlluniau Rheoli Traethlin (SMP2) o amgylch yr arfordir. Yn arbennig er mwyn helpu i

gyflawni prosiectau addasu arfordirol

- Bil yr Amgylchedd
- Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (a Rheoliadau Perygl Llifogydd yr UE)
- Rhaglen gyllid arloesol (a gyhoeddwyd 9 Rhagfyr 2014)

Dylai hefyd ategu a chefnogi (fel y bo'n briodol) y Bil Cynllunio a mentrau cysylltiedig eraill, megis annog cydweithredu â rheolwyr tir er mwyn rhoi mesurau i reoli perygl llifogydd naturiol ar waith. Bydd hyn yn cynnwys ystyried dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd a dysgu o waith 'cynlluniau peilot sy'n seiliedig ar ardaloedd' sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd mewn sawl dalgylch ledled Cymru.

### **Gwella gallu cymunedau i wrthsefyll llifogydd a chyflawni ymyriadau addasol**

Dylai FaCIP fynnu bod penderfyniadau a dewisiadau a wneir nawr yn ceisio ymgorffori'r gallu i wrthsefyll llifogydd a'r gallu i addasu (hyblygrwydd i addasu yn y dyfodol), gan gydnabod yr ansicrwydd cynhenid yn y dyfodol a'i bod yn bosibl y bydd yr amgylchiadau yn y dyfodol yn wahanol iawn i'r rhai sy'n bodoli heddiw.

### **Dyletswyddau Statudol a Phwerau Caniataol – Blaenoriaethu cymharol**

Bydd angen i FaCIP gydnabod hierarchaeth blaenoriaethu sydd eisoes wedi'i hymgorffori drwy ddeddfwriaeth, dyletswyddau cyfreithiol a phwerau caniataol.

Ceir gweithgareddau y mae'n rhaid i Awdurdodau Rheoli Perygl eu cyflawni ac y rhoddir blaenoriaeth iddynt, fel arfer, dros arfer pwerau caniataol. Byddai enghreifftiau o ddyletswyddau statudol yn cynnwys y canlynol:

- Iechyd a Diogelwch (diogelwch cyhoeddus a thuag at staff gweithredol)
- Cydymffurfio â Deddf Cronfeydd Dŵr 1975

At hynny, mae gan Awdurdodau Rheoli Perygl gyfrifoldebau i barhau i gynnal a chadw asedau sy'n bodoli eisoes a threfniadau ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Wrth ddefnyddio dull sy'n wirioneddol seiliedig ar risg, gall fod yn briodol newid gweithgareddau cynnal a chaw, cwtogi arnynt ac, mewn rhai achosion, roi'r gorau iddynt yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, mae'n rhaid cyflawni'r addasiadau hyn mewn ffordd reoledig sy'n golygu bod angen buddsoddi amser ac adnoddau i gynllunio, cyfleu a gweithredu'r newid i'r gweithgaredd rheoli perygl llifogydd.

### **Gwariant Cyfalaf a Refeniw**

Deallwn y bwriad i ganolbwyntio ar wariant cyfalaf i ddechrau. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae cysylltiad annatod yn aml rhwng anghenion o ran buddsoddi cyfalaf ac anghenion o ran buddsoddi refeniw, er enghraifft bydd buddsoddi cyfalaf mewn amddiffynfeydd ac asedau newydd yn gofyn am wariant refeniw cysylltiedig er mwyn cynnal yr asedau yn ystod eu hoes. Mae'n rhaid ystyried y gydberthynas hon o fewn proses gyffredinol FaCIP.

Hefyd, mae'n rhaid i ddull FaCIP fod â'r hyblygrwydd i ymdrin, yn gymesur, â phrosiectau sy'n amrywio o fuddsoddiadau mawr gwerth miliynau o bunnau i weithgareddau cynnal a chadw cyfalaf arferol a chymharol fach.

Byddem yn croesawu'r cyfle i drafod prosiectau cynnal a chadw cyfalaf a refeniw a'u lle yn null cyffredinol FaCIP ymhellach â Llywodraeth Cymru.

### **Mentrau Strategol**

Mae (a bydd yn y dyfodol) weithgareddau a mentrau y mae fwyaf priodol eu hystyried o safbwynt Cymru gyfan. Mae'n rhaid i FaCIP allu darparu ar gyfer y rhain. Byddai'r enghreifftiau'n cynnwys:

- Rhaglen Creu Cynefinoedd Cymru
- Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru
  
- Gweithgarwch Monitro Arfordirol (Gweler hefyd ein hymateb i Gwestiwn 7)
- Gwelliannau Hydrometrig
- Buddsoddiadau mewn systemau TG sydd o bwys cenedlaethol ac yn bwysig i fusnesau, megis gwasanaethau rhagweld llifogydd a rhybuddio am lifogydd
- Costau gweithredol megis costau fflyd a chyflogau.

C2. A oes gennych unrhyw sylwadau am ddefnyddio'r Rhaglen ar gyfer pob agwedd ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ym mha bynnag ffordd sydd fwyaf priodol i ymdrin â'r perygl?

### **Sylwadau: Adrannau 2 a 3 o'r Ddogfen ymgynghori**

Mewn egwyddor, rydym o blaid defnyddio FaCIP ar gyfer pob agwedd ar weithgarwch rheoli llifogydd ac erydu arfordirol ym mha ffordd bynnag sydd fwyaf priodol i ymdrin â pheryglon, yn amodol ar y canlynol:

- Y sylwadau a nodir yng Nghwestiwn 1 uchod.
- Proses sefydlu lwyddiannus a llwyddiant profedig gan ddefnyddio arian cyfalaf yn unig.
- Rhoddir sylw priodol i'r cyfyngiadau ariannol o ran defnyddio arian cyfalaf ac arian referniw. Byddem yn cefnogi dull gweithredu sy'n sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf posibl rhwng defnyddio arian referniw ac arian cyfalaf.

Dylai dull FaCIP hyrwyddo cynlluniau sy'n gydnaws â'r amgylchedd o'u hamgylch ac sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth megis y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinodd ac annog pob Awdurdod Rheoli Perygl i gyflawni cynlluniau o'r fath.

Mae Adran 3.2 yn cydnabod na ddylid cyfyngu cynlluniau i amddiffynfeydd caled, sydd i'w groesawu. Bydd bob amser angen amddiffynfeydd caled, ond drwy integreiddio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn briodol yn yr arfarniad o opsiynau a'r broses gynllunio, gellir eu cynllunio a'u cyflawni mewn ffordd sy'n gydnaws â'r amgylchedd o'u hamgylch. Dylid gwneud hyn ar gyfer pob cynllun.

Dylai'r canllawiau arfarnu diwygiedig hyrwyddo disgwyliadau amgylcheddol Llywodraeth Cymru o ran prosiectau a dylai proses FaCIP gynnwys gwaith craffu i sicrhau bod pob prosiect yn bodloni'r disgwyliadau hyn a'u bod yn cydymffurfio â'r gyfraith o dan deddfwriaeth amgylcheddol

C.3 A oes gennych unrhyw sylwadau am y cynnig i gael Mynegai Perygl Llifogydd cenedlaethol i helpu i ddeall perygl o bob ffynhonnell?

Sylwadau: **Adran 2 i 4.3 o'r Ddogfen ymgynghori**

**Cysyniad y Mynegai Perygl Llifogydd cenedlaethol**

Mewn egwyddor, rydym yn cefnogi cysyniad y Mynegai Perygl Llifogydd cenedlaethol (y *'Mynegai'*).

Wrth ddatblygu'r Mynegai hwn rydym o'r farn bod y canlynol yn hanfodol:

- Caiff ei ddatblygu yn gyson ledled Cymru er mwyn ei gwneud yn bosibl i leoliadau gael eu hystyried yn deg ac ar sail *'tebyg am debyg'*. Rydym yn cefnogi'r gosodiad i'r perwyl hwn ar Dudalen 9 o'r ddogfen ymgynghori.
- Deëllir diben a chyfyngiadau'r *'Mynegai'* yn glir gan bob partner proffesiynol a phobl a chymunedau Cymru. Prif ddiben y Mynegai yw ymateb i *'her'* amcan y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (sef "blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf. ") drwy nodi, o safbwynt Cymru gyfan, y *'cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf'*.
- Nodir elfennau unigol y Mynegai cenedlaethol yn glir ac fe'u deëllir gan bawb. Cyfeirir yn gryno at hyn ar Dudalen 9 lle y nodir y byddai llifogydd mewn ardaloedd preswyl yn *'sgorio'* yn uwch na llifogydd â thebygolrwydd tebyg mewn man hamdden.
- Gellir ei gyfleu mewn geiriau sy'n briodol i'r cyhoedd er mwyn helpu'r cyhoedd a chymunedau i ddeall y broses gwneud penderfyniadau yn well.
- Nid yw'n cael ei wneud yn rhy gymhleth, mewn ymgais i ymdrin â'r gwahaniaethau cynhenid rhwng y ffynonellau gwahanol o berygl ac argaeledd data, am y gallai'r *'cymhlethdod'* hwn amharu ar ddealltwriaeth cymunedau.
- Ni chaiff ei ddefnyddio at ddibenion nas bwriadwyd, h.y. y tu hwnt i'w gyfyngiadau.

Rydym yn cytuno â manteision posibl y *'Mynegai'* a nodir ar waelod Tudalen 5 o'r Ddogfen ymgynghori. Yn benodol, rydym yn cefnogi'r gosodiad canlynol ar waelod tudalen 4 o'r ddogfen ymgynghori, sef:

- *Defnyddio'r Mynegai fel man cychwyn i lywio rhaglen ariannu genedlaethol a fydd yn cyfeirio cyllid at gynlluniau yn yr ardaloedd sydd yn y perygl mwyaf.*

Rydym yn cytuno y byddai'r Mynegai yn *'fan cychwyn'* a fyddai, i bob pwrpas, yn tynnu sylw partneriaid a chymunedau ledled Cymru at y lleoliadau hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf. Yn y bôn, bydd y Mynegai yn helpu i lywio trafodaethau lleol rhwng partneriaid yn seiliedig ar fynegai perygl a bennwyd ac a flaenoriaethwyd yn genedlaethol. Dylai'r trafodaethau lleol hyn fod yn sbardun i ddatblygu cynigion ar gyfer buddsoddi er mwyn gwella dealltwriaeth leol o beryglon a nodi ymyriadau rheoli perygl. Ni fydd y Mynegai, ynddo'i hun, yn sicrhau y caiff arian ei ddyrannu ond, lle mae'n nodi bod lefel uchel o berygl, bydd yn darparu rhywfaint o hyder a rhagdybiaeth y câi cynigion ar gyfer buddsoddi eu hystyried yn ffafriol.

Mae tudalen 8 o'r ddogfen ymgynghori yn nodi *'ni fwriedir iddi fod yn broses gwbl awtomataidd'*. Rydym yn cefnogi hyn yn llawn. Bydd penderfyniadau ynghylch neilltuo adnoddau a phennu blaenoriaethau bob amser yn gofyn am benderfyniadau sydd weithiau yn anodd, sy'n ystyried



ac yn pwysu a mesur *'ffactorau go iawn'*. Gallai'r Mynegai fod yn adnodd defnyddiol i helpu i lywio hyn, ond mae hefyd angen darparu fframwaith ac egwyddorion clir a chyson sy'n llywio penderfyniadau a sicrhau bod y rhain ar gael i'r cymunedau y mae penderfyniadau yn effeithio arnynt, er mwyn gwella eu dealltwriaeth ynghylch sut a pham y gwneir y penderfyniadau hyn. Gellid cynnwys hyn yng Nghylch Gorchwyl neu Delerau Gwaith y trefniadau llywodraethu a drafodir yn Adran 5.2 o'r Ddogfen ymgynghori.

**Adnodd i helpu i lywio prosesau gwneud penderfyniadau yn unig yw'r Mynegai. Wrth wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi a blaenoriaethu bydd bob amser angen ystyried llawer o ffactorau unigol.**

### **Adnodd Cymunedau mewn perygl CNC**

Mae Adran 3 o'r ddogfen ymgynghori yn nodi'n gywir fod gennym (CNC) adnodd cymunedau mewn perygl ar hyn o bryd. Mae'r adnodd hwn yn ei gwneud yn bosibl i ardaloedd daearyddol gael eu sgorio mewn ffyrdd gwahanol. Mae'r fersiwn presennol yn cynnwys afonydd a'r môr fel ffynonellau llifogydd ac yn defnyddio system sgorio sydd wedi'i seilio'n fras ar y fethodoleg risgiau i bobl.

Byddem yn croesawu cyfle i gynnal trafodaethau pellach â Llywodraeth Cymru er mwyn rhannu ein profiad ac ystyried ymhellach sut y gallai ein dadansoddiad gefnogi cysyniad y Mynegai Llifogydd Cenedlaethol.

### **Prif ffynonellau llifogydd**

Mae Adran 4.1 Tudalen 10 o'r ddogfen ymgynghori yn nodi mai'r prif ffynonellau llifogydd a gaiff eu cynnwys yn y *'Mynegai'* yw:

- Llifogydd môr
- Llifogydd Afonydd, gan gynnwys prif afonydd a chyrsgiau dŵr arferol;
- Llifogydd dŵr wyneb

Rydym yn cytuno â'r cynnig i gynnwys y ffynonellau uchod yn y Mynegai ac yn ei gefnogi. Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo ymagwedd fwy cyfannol at gynlluniau rheoli perygl llifogydd a chydweithredu agosach rhwng yr Awdurdodau Rheoli Perygl.

Mae Tudalen 10 hefyd yn hepgor Dŵr daear ar hyn o bryd. Rydym yn cytuno â hyn.

Mae perygl llifogydd o gronfeydd dŵr a reoleiddir hefyd wedi'i hepgor er nas trafodir yn yr adran hon o'r ddogfen ymgynghori. Rydym yn cytuno y dylid hepgor y ffynhonnell hon o berygl llifogydd o'r Mynegai am fod deddfwriaeth statudol yn ceisio lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd o'r ffynhonnell hon cymaint â phosibl.

Mae cronfeydd dŵr sy'n peri'r risgiau mwyaf sylweddol i bobl ac eiddo eisoes wedi'u nodi o dan ofynion Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 a disgwylir i nifer y cronfeydd dŵr sy'n cael eu rheoleiddio gynyddu yn y dyfodol agos ar ôl i newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Diben Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yw lleihau'r tebygolrwydd y caiff dŵr ei ollwng heb reolaeth o'r gronfa ddŵr hyd y gellir; mae'n gwneud hyn drwy ddarpariaethau deddfwriaeth statudol.

Bydd angen i brosesau blaenoriaethu a dyrannu FaCIP ystyried y dyletswyddau statudol ar Awdurdodau Lleol a CNC i gydymffurfio â Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 ac fel y cyfarwyddir gan Beirianwyr Panel yr Holl Gronfeydd Dŵr.

**Data perygl llifogydd lleol. Adran 4.1. Tudalen 10**

Rydym yn cytuno y dylid cyflwyno data lleol yn y broses gwneud cais am arian a dyrannu arian. Byddai'r data lleol hyn yn llywio'r broses arfarnu prosiectau leol.

**Tebygolrwydd llifogydd. Adran 4.2 Tudalen 11**

Nodwn y cynnig i ystyried sawl tebygolrwydd llifogydd cyson ar draws y ffynonellau gwahanol o lifogydd (afonydd, arfordirol a dŵr wyneb). Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn nodi'r tebygolrwydd llifogydd priodol a, lle y bo angen, y gwaith dadansoddi pellach sydd angen ei wneud er mwyn cael y wybodaeth hon.

**I gloi, byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid ar ddatblygu mynegai priodol a'r deunyddiau briffio a chyfathrebu cysylltiedig.**

C.4 A ydych yn cytuno y dylai Mynegai Perygl Llifogydd barhau i fod yn ddangosydd lefel uchel o risg cyfunol ond y dylid caniatáu i fodelu llifogydd lleol gael ei ddefnyddio i gefnogi tystiolaeth mewn ceisiadau?

<input checked="" type="checkbox"/> Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/> Cytuno	<input type="checkbox"/> Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
<input type="checkbox"/> Anghytuno	<input type="checkbox"/> Anghytuno'n gryf	

Sylwadau: **Adran 4.1 o'r Ddogfen ymgynghori**

Ydyn, dylai'r Mynegai fod yn ddangosydd lefel uchel o berygl cyfunol.

Diben y Mynegai yw *tynnu sylw ar lefel genedlaethol* at y '*lleoliadau sy'n wynebu'r perygl mwyaf*' gan ysgogi'r trafodaethau cywir, yn y lleoedd cywir a rhwng y bobl gywir er mwyn sicrhau bod y peryglon lleol hyn yn cael eu deall a'u rheoli.

Mae'r Mynegai hwn yn gofyn am gysondeb ar lefel Cymru gyfan er mwyn ei gwneud yn bosibl i leoliadau sydd mewn perygl gael eu hystyried ar sail '*tebyg am debyg*'. Caiff y Mynegai ei lunio gan ddefnyddio setiau data cenedlaethol a gwaith modelu a mapio cenedlaethol. Mantais y rhain yw eu bod yn sicrhau'r cysondeb angenrheidiol o ran gwaith dadansoddi ar lefel Cymru gyfan. Fodd bynnag, ni fydd y rhain byth yn ddigonol ynddynt hwy eu hunain i gyfiawnhau buddsoddiadau lleol.

Felly, bydd angen gwneud gwaith modelu a dadansoddi lleol er mwyn sicrhau bod y perygl lleol yn cael ei ddeall yn llawn a helpu i werthuso opsiynau o ran rheoli perygl yn unol â'r canllawiau arfarnu sy'n gyson yn genedlaethol.

C.5 A oes gennych enghreifftiau lle mae llifogydd wedi digwydd dro ar ôl tro mewn lle a ddangosir ar hyn o bryd fel lle gyda pherygl llifogydd isel? Rhowch dystiolaeth berthnasol fel y bo'n briodol.

Oes

Nac oes

Ddim yn siŵr

Sylwadau: **Adrannau 4.1 a 4.2 o'r Ddogfen ymgynghori**

Mae hyn yn deillio'n rhannol o 'aeddfe<sup>r</sup>drwydd' ac ansawdd y setiau data mapio perygl llifogydd sydd ar gael ar gyfer prif afonydd a llifogydd môr (y mae gan CNC y prif gyfrifoldeb amdanynt). Rydym ni (CNC) yn adolygu ac yn diweddarau ein mapiau perygl llifogydd ar gyfer Prif afonydd a'r Môr yn barhaus. Mae'r rhain yn cynnwys afonydd â dalgylch sy'n fwy na 3km<sup>2</sup>. Mae'r mapiau llifogydd hyn yn 'set ddata aeddfe<sup>r</sup>' ac mae eu hansawdd wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd. Felly, rydym o'r farn bod ein gwaith mapio o'r ffynonellau hyn yn drylwyr.

Yn y bôn, rydym o'r farn bod y cwestiwn hwn yn nodi y bydd angen i broses FaCIP ystyried sut mae'n ymdrin â lleoliadau sy'n dioddef llifogydd dro ar ôl tro.

Mae'r Mynegai yn cynnig y dylid asesu nifer yr eiddo â setiau data 1 mewn 30, 1 mewn 100 ac 1 mewn 1,000 mewn unrhyw flwyddyn. Felly, bydd angen i fethodoleg FaCIP ystyried sut y bydd yn nodi lleoliadau sy'n mynd dan ddŵr yn amlach, ar y cam gwneud cais a'r cam dyrannu arian. Os bydd dystiolaeth hanesyddol yn nodi grwpiau o eiddo sy'n mynd dan ddŵr dro ar ôl tro (h.y. yn eithaf aml) gellid ystyried bod y rhain yn 'flaenoriaeth genedlaethol' i gael sylw a denu rhagdybiaeth o gyllid. Mae technegau arfarnu economaidd safonol eisoes yn ei gwneud yn bosibl i lifogydd mynych gael eu hymgorffori yn y dadansoddiad arfarnu opsiynau.

Fodd bynnag, byddai angen bod yn ofalus wrth ystyried lleoliadau o'r fath. Os bydd grwpiau o eiddo yn dioddef llifogydd yn aml dylid gofyn cwestiynau ynghylch pam nad oes camau wedi'u cymryd eisoes i reoli'r risg hon. Efallai fod opsiynau i reoli'r risg yn gymhleth ac yn gostus ac nad ydynt yn cynnig gwerth am arian na manteision economaidd cadarnhaol yn gyfnewid am wariant cyhoeddus.

C.6 A ydych yn cytuno y dylai gwybodaeth sy'n ymwneud ag amddiffynfeydd gael ei heithrio o'r Mynegai Perygl Llifogydd? Gallai presenoldeb amddiffynfeydd gael ei ddangos ar unrhyw fap a'i gynnwys yn y cam arfarnu yn nes ymlaen.

<input type="checkbox"/> Cytuno'n gryf	<input checked="" type="checkbox"/> Cytuno	<input type="checkbox"/> Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
<input type="checkbox"/> Anghytuno	<input type="checkbox"/> Anghytuno'n gryf	

#### Sylwadau: **Adran 4.2 o'r Ddogfen ymgynghori**

Rydym yn cytuno y dylai'r Mynegai Perygl Llifogydd cenedlaethol hepgor amddiffynfeydd i ddechrau, yn bennaf am nad oes set ddata sy'n gyson yn genedlaethol ar gyfer pob amddiffynfa. Fodd bynnag, mae cynnwys gwybodaeth am amddiffynfeydd yn amcan tymor hwy dymunol a dylid ystyried ymhellach sut y gellir gwneud hyn, yn y tymor hwy.

Felly, i ddechrau bydd y Mynegai yn cofnodi'r *'perygl heb ei liniaru neu'r perygl nas rheolir'*.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at hyn fel y *'perygl naturiol mwyaf'*.

Gall hyn fod yn ddefnyddiol ynndo'i hun er mwyn codi ymwybyddiaeth leol, yn enwedig mewn cymunedau a ddiogelir gan amddiffynfeydd sylweddol. Gall yr amddiffynfeydd hyn leihau'r tebygolrwydd o lifogydd gryn dipyn i lefel lle na fyddant yn digwydd yn aml iawn. O ganlyniad, efallai na fydd rhai cymunedau yn ymwybodol iawn o'r perygl llifogydd y maent yn ei wynebu, pwysigrwydd amddiffynfeydd lleol a'r canlyniadau pan fydd dŵr yn llifo dros yr amddiffynfeydd.

Caiff presenoldeb amddiffynfeydd ei ystyried yn lleol pan fydd Awdurdodau Rheoli Perygl yn gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid gwneud ceisiadau am arian ai peidio.

Pan gaiff y Mynegai ei gyhoeddi bydd angen ei ategu â negeseuon clir sy'n esbonio nad yw'r Mynegai yn cofnodi'r perygl *'gwirioneddol'* presennol. Felly, bydd angen ei ategu â gwybodaeth sy'n dweud wrth gymunedau sut y gallant gael manylion am ba weithgareddau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd er mwyn rheoli'r risgiau. (Mae hyn hefyd yn gymwys i Gwestiwn 9).

C.7 Ydych chi'n cytuno â'r dull o ymdrin â pherygl Erydu Arfordirol ac y dylid ei farcio ar wahân i berygl llifogydd? Os nad ydych, rhowch awgrym arall.

Cytuno'n gryf

Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno

Anghytuno'n gryf

#### Sylwadau: **Adran 4.3 o'r Ddogfen ymgynghori)**

Rydym yn cytuno bod perygl erydu arfordirol yn fath gwahanol o berygl o'i gymharu â llifogydd o afonydd, y môr a dŵr wyneb. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd ei gymharu ar sail *'tebyg am debyg'*

Gall erydu arfordirol a chamau gweithredu i'w liniaru neu addasu iddo fod yn gysylltiedig â lleoliadau lle mae perygl llifogydd arfordirol. At hynny, mae gweithgarwch rheoli erydu arfordirol yn un o gyfrifoldebau tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru ac fe'i hariennir ganddo. Felly, mae'n bwysig bod erydu arfordirol yn cael ei ymgorffori, mewn rhyw ffurf neu'i gilydd, yn y gwaith o ddatblygu FaCIP.

Rydym yn cytuno â'r awgrym ar Dudalen 12 o'r ymgynghoriad y dylai'r gwerthusiad o berygl erydu arfordirol fodoli ochr yn ochr â Mynegai Perygl Llifogydd ond y dylai fod ar wahân iddo.

Caiff y ddealltwriaeth genedlaethol o berygl erydu arfordirol ei llywio gan y Prosiect Mapio Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol. Mae hon yn set ddata gymharol newydd ac *'anaeddfed'* ac felly, i ddechrau, byddem yn disgwyl iddi lywio rhaglen monitro ac ymchwilio genedlaethol. Dylid cysoni ymyriadau i reoli erydu arfordirol neu addasu iddo â'r cyfeiriad teithio strategol a nodir gan Gynlluniau Rheoli Traethlin (SMP2).

Dylid cynigion ar gyfer ymyriadau i reoli perygl **llifogydd arfordirol** roi sylw priodol i'r perygl **erydu arfordirol lleol** ac fel arall. Lle y bo'n briodol dylid cysoni'r rhain a sicrhau eu bod yn gydlynol. Dylid ymgorffori hyn drwy gynnwys gofyniad penodol yn y broses dyrannu arian.

C.8 Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion a nodir yn Adran 4.5 am asesu risg o ffynonellau lluosog a sgorio yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA)? A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau?

Cytuno'n gryf

Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno

Anghytuno'n gryf

**Sylwadau: Mae'r Cwestiwn hwn yn ymwneud ag Adran 4.4 ac nid 4.5 fel y nodwyd uchod**

Rydym yn cytuno â'r gosodiad yn Adran 4.4 tudalen 14, sef '*Perygl i fywyd bob amser fydd y ffactor pwysicaf o ran pennu blaenoriaethau buddsoddi*'. Mae hyn wrth wraidd pob penderfyniad a wneir ynghylch rheoli perygl llifogydd.

Fodd bynnag, mae'n hanfodol, wrth ystyried yr amrywiaeth o ymyriadau posibl i reoli'r risgiau hyn, fod y rhain yn cael eu gwerthuso yn erbyn y meini prawf cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ehangach. Mae hyn eisoes yn rhan o Ganllawiau Arfarnu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ac mae'n rhaid ei gadw ac os oes angen ei wella yn yr adolygiad arfaethedig o ganllawiau arfarnu.

Wrth gynllunio'r ymyriadau i reoli peryglon, yn enwedig peryglon arfordirol, mae'n hanfodol y rhoddir sylw priodol a blaenoriaeth i Raglen Creu Cynefinoedd Arfordirol Cymru. Gall fod cysylltiad annatod rhwng buddsoddi ac amseriad gwaith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a chwblhau gwaith creu cynefinoedd cydbwyso statudol, sy'n ofynnol er mwyn gwneud iawn am y colledion disgwylidiedig a achosir gan 'wasgfa arfordirol'.

Rydym yn cefnogi'r cynnig i lunio'r Mynegai Perygl Llifogydd, i ddechrau, gan ddefnyddio nifer yr eiddo a'r math o eiddo sydd mewn perygl. Gellid ei ddatblygu a'i fireinio ymhellach dros amser pe bai angen. Byddem yn croesawu'r cyfle i drafod ymhellach y ffordd orau o ymgorffori pa mor agored yw cymunedau lleol i lifogydd ym mhroses gyffredinol FaCIP.

Rydym yn cydnabod cynnig Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is fel yr uned ofodol ar gyfer y Mynegai a'r sylfaen hanfodol i waith dadansoddi. Gallwn ddeall a gwerthfawrogi'r ffaith y gall fod yn fanteisiol defnyddiol uned ofodol sy'n deillio, yn rhannol, o'r Llywodraeth ac a allai gyfuno â data ystadegol eraill.

Fodd bynnag, efallai nad hon yw'r raddfa fwyaf priodol ar gyfer cyfathrebu â'r cyhoedd nac ar gyfer llywio trafodaethau lleol rhwng partneriaid rheoli perygl. Felly, dylid ystyried hefyd ddewisiadau cyn gwneud y dewis terfynol. Rydym yn cytuno y dylai'r dadansoddiad fynd rhagddo, i ddechrau, gan ddefnyddio'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is fel yr uned ofodol a sylfaen hanfodol ond wrth i'r dadansoddiad hwn fynd rhagddo dylid ystyried manteision cyfuno'r rhai i greu ardaloedd mwy o faint. Cydnabyddir yr egwyddor hon ar Dudalen 14 o'r Ddogfen ymgynghori sy'n trafod cyfuno'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is i greu ardaloedd daearyddol mwy o faint.

Byddem yn awgrymu y dylai'r broses o ddatblygu dull FaCIP gynnwys profi (efallai mewn ardaloedd lleol) manteision ac anfanteision cymharol ardaloedd gofodol bob yn ail at ddibenion gwahanol, e.e. cyfathrebu â'r cyhoedd ac i'w defnyddio gan Awdurdodau Rheoli Perygl.

Rydym yn cydnabod y cysyniad o *'sgorio a phwysoliadau'* i fodloni'r ystyriaeth graidd, sef nodi'r lleoliadau sydd yn y perygl mwyaf yn ôl y perygl i fywyd. Rydym yn cefnogi'r gosodiad ar Dudalen 15 o'r Ymgynghoriad sy'n nodi:

*'Mae'n bwysig fod yr asesiad hwn o risg mor dryloyw, syml a hawdd ei ailadrodd ag y bo modd er mwyn hwyluso diweddariadau cenedlaethol os bydd setiau data cenedlaethol gwell yn ymddangos.'*

Mae defnyddio sgorau a phwysoliadau syml yn gyson â'r cysyniad hwn. Er y gellid ystyried eu bod yn gymharol *'annatblygedig'*, eu mantais yw eu bod yn syml ac felly y gellir eu hamrywio er mwyn ei gwneud yn bosibl i brofion sensitifwydd cymharol syml gael eu gwneud ar dybiaethau gwahanol a senarios *'beth petai'*.

Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Rheoli Perygl eraill er mwyn nodi a gwerthuso opsiynau o ran sgorio a phwysoliadau bob yn ail.

## C.9 A oes gennych unrhyw sylwadau pellach am gyflwyno neu ddatblygu'r Mynegai Perygl Llifogydd arfaethedig?

### Sylwadau: **Adran 4.5 o'r Ddogfen ymgynghori**

Rydym yn cytuno, am y rhesymau a nodwyd, y dylid grwpio unrhyw leoliadau mewn perygl a gyflwynir i'r cyhoedd. At hynny, fel y trafodwyd uchod, dylid ystyried cyfuno'r Ardaloedd Cynnych Ehangach Is (neu opsiynau amgen eraill o bosibl) er mwyn sicrhau bod y wybodaeth mor ddefnyddiol ag y gall fod at y diben a fwriadwyd.

Mae cyflwyno'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol ynddo'i hun er mwyn codi ymwybyddiaeth leol ac, o bosibl, ennyn diddordeb mewn peryglon llifogydd lleol. Fodd bynnag, mae'n cofnodi'r *'perygl heb ei liniaru'* h.y. heb weithgareddau rheoli perygl sy'n bodoli eisoes, ac yn hyn o beth nid yw'n cofnodi'r lefel wirioneddol o berygl. Bydd angen cyfleu hyn yn glir pan gânt eu cyflwyno i'r cyhoedd ynghyd â chyfleoedd a ddarperir i'r cyhoedd a chymunedau ddeall pa weithgareddau rheoli perygl sy'n cael eu cyflawni eisoes er mwyn rheoli'r peryglon hyn.

Gweler hefyd ein hymateb i Gwestiwn 6.



## C.10 A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y broses ymgeisio?

Sylwadau: **Adran 5 o'r Ddogfen ymgynghori**

### **Cyflawni Canlyniadau a Ffyrdd o Weithio**

Mae'r broses gwneud cais am arian a dyrannu cyllid yn elfen hanfodol o FaCIP. Dyma'r system y gellir ei defnyddio i ymgorffori canlyniadau sy'n bwysig yn genedlaethol a'r ffyrdd o weithio a ddisgwylir mewn prosesau cyflawni lleol.

Mae'n hanfodol bod Awdurdodau Rheoli Perygl yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt o ran y ceisiadau am arian a'r modd y cyflawnir prosiectau wedyn. Bydd hyn yn gofyn am ganllawiau clir a chryno. Nodir llawer o ofynion tebygol cais yn Adran 5.1 tudalen 20.

Un o'r prif ystyriaethau ar gyfer unrhyw gais am arian fydd nodi lleihad yn y perygl i fywyd sy'n deillio o'r buddsoddiad a dangos bod y buddsoddiad yn economaidd ac yn amgylcheddol gadarn. Bydd angen i'r broses gwneud cais a dyrannu arian ystyried ac adlewyrchu'r elfennau a'r pwysoliadau cymharol a ddefnyddiwyd i lunio'r Mynegai Perygl Llifogydd. Dylai FaCIP hefyd geisio defnyddio lefelau cymesur o broses a dogfennaeth er mwyn sicrhau cysondeb, prosesau cyflawni effeithlon ac effeithiol, ac uniondeb ariannol.

Dylai proses gyffredinol FaCIP geisio sicrhau gweithgarwch rheoli adnoddau naturiol integredig tra hefyd yn cadw'r flaenoriaeth graidd ar gyfer perygl llifogydd, sef lleihau'r perygl i fywyd. Dylai lleoliadau lle mae mwy o risg i fywyd fod yn flaenoriaeth ar gyfer ymyriadau ond mae'n bosibl y gallai lleoliadau lle mae llai o risg i fywyd sicrhau manteision lluosog ehangach. Dylid gwerthuso'r wybodaeth hon ar y cam arfarnu buddsoddiad a chraffu arni a'i blaenoriaethu fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch dyrannu arian.

Rydym yn cefnogi'r cysyniad y caiff arian ar gyfer ymyriadau cost uwch (neu gymhleth) ei ddyrannu fesul cam.

### **Amserlen cyllido a dyrannu genedlaethol**

Byddai sefydlu amserlen cyllido a dyrannu genedlaethol yn fanteisiol. Bydd yn helpu i wella prosesau cynllunio a rhaglennu. Rydym yn deall bod yr amserlen a geir yn y ddogfen ymgynghori yn un ddangosol a byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Rheoli Perygl eraill i ddatblygu amserlen briodol ar gyfer gwneud ceisiadau a dyrannu arian. Bydd hyn yn rhoi digon o amser rhwng yr adeg y dyrennir cyllid a'r adeg y bydd y gwaith a'r gwariant yn dechrau e.e. er mwyn caffael a chynnull timau cynllunio prosiectau ac adeiladu.

Yn ogystal â'r amserlen cyllido a dyrannu, bydd hefyd angen sicrhau bod FaCIP yn ddigon hyblyg i alw am geisiadau ychwanegol yn rhagweithiol pe bai'r rhaglen yn gofyn am hyn neu pe bai arian ychwanegol ar gael. At hynny, mae angen iddi fod yn hyblyg fel y gall dderbyn ceisiadau i wneud gwaith brys ar ôl digwyddiad ac ymateb iddynt yn gyflym.

### **Gwerthusiad technegol o geisiadau**

Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau am arian mewn fformat cyson ac yn unol â'r canllawiau arfarnu prosiectau diwygiedig. Mae'n bwysig bod swyddogion â'r arbenigedd a'r profiad technegol gofynnol yn craffu ar y rhain ac yn eu gwerthuso'n dechnegol ar sail gyfartal. Bydd hyn yn cynnwys gwaith craffu amgylcheddol ac unrhyw arbenigwyr eraill yn ôl yr angen (e.e. peirianwyr, economyddion, gwyddonwyr amgylcheddol).

Mae'n rhaid i'r gwaith craffu hwn fod yn gymesur â chostau'r prosiect ac unrhyw agweddau eraill a all fod yn bwysig - er enghraifft, os yw'r prosiect yn arbennig o gymhleth neu os yw'n defnyddio dulliau newydd neu arloesol o weithredu.

Gallai'r gwaith craffu hwn gael ei wneud gan 'Fwrdd y Rhaglen' pe bai ganddo'r amser, y gallu a'r arbenigedd i wneud hynny. Fel arall, gellid defnyddio cronfa o swyddogion 'technegol' ledled Cymru i wneud y gwaith craffu hwn a gwneud argymhellion i Fwrdd y Rhaglen sy'n gwneud penderfyniadau.

**C.11 A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch bwrdd y rhaglen neu lywodraethu Rhaglen Fuddsoddi mewn Llifogydd ac Erydu Arfordirol?**

### **Sylwadau: Adran 5.2 o'r Ddogfen ymgynghori**

Rydym yn cytuno y dylai fod gan FaCIP strwythurau llywodraethu priodol.

Bydd angen ystyried yn ofalus sut y byddai Bwrdd Rhaglen FaCIP yn gweithredu ochr yn ochr â threfniadau llywodraethu sefydledig a chynlluniau dirprwyo ariannol ym mhob un o'r Awdurdodau Rheoli Perygl.

Rydym yn cefnogi, mewn egwyddor, gysyniad Bwrdd y Rhaglen fel y'i nodir yn y ddogfen ymgynghori ac yn cytuno, ar y cyfan, â'r ystod o 'awdurdodau dirprwyedig tebygol' fel y'u nodir ar dudalen 21. Yn ein barn ni, cyfrifoldebau allweddol y Bwrdd fyddai:

- Cael ceisiadau am arian, craffu arnynt (ar ôl ystyried y sylwadau isod) a'u cymeradwyo.
- Sicrhau bod ceisiadau yn cyflawni'r canlyniadau a'r ffyrdd o weithio sydd eu hangen.
- Cytuno ar ymatebion unioni er mwyn sicrhau y caiff targedau ariannol cenedlaethol a chanlyniadau eu cyflawni.
- Cael adroddiadau ar gynnydd a chyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru. Dylai hyn gynnwys cyflwyno adroddiadau ar fodloni egwyddorion cynaliadwyedd (a/neu gydymffurfio â Bil yr Amgylchedd/Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel y bo'n briodol).
- Rhoi arweiniad a chyfeiriad o ran mentrau o bwys cenedlaethol.
- Hyrwyddo rhannu arfer gorau.

At hynny, bydd angen i FaCIP sefydlu rhaglen dreigl a fydd yn cynnwys llyf sylweddol o waith datblygu prosiectau. Mae angen hyn er mwyn helpu i reoli risgiau i raglenni drwy alluogi gor-raglennu gwaith yn erbyn arian sydd ar gael a sicrhau bod gwaith ychwanegol

ar gael i'w cynnwys ar fyr rybudd.

Mae'n rhaid nodi Cylch Gorchwyl a Ffyrdd o Weithio'r grŵp yn glir a sicrhau eu bod ar gael. At hynny, mae'n rhaid cofnodi penderfyniadau Bwrdd y Rhaglen a sicrhau eu bod ar gael er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth o'r broses gwneud penderfyniadau a hyrwyddo tryloywder.

Fel y trafodwyd yng Nghwestiwn 10 gallai Bwrdd y Rhaglen, o bosibl, wneud '*gwaith craffu technegol*' ar brosiectau unigol pe bai ganddo'r gallu a'r sgiliau i wneud hynny. Fel arall, gallai gael argymhellion gan arbenigwyr technegol.

Ar y cyfan, rydym yn cytuno â chyfansoddiad arfaethedig Bwrdd y Rhaglen. Fodd bynnag, byddai angen penderfynu'n derfynol arno unwaith y bydd diben a Chylch Gorchwyl Bwrdd y Rhaglen wedi'u nodi'n gliriach.

Byddem yn awgrymu y dylai Bwrdd y Rhaglen gyfarfod bob chwarter ond hefyd gael adroddiad cynnydd misol a chynnal cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen er mwyn ymdrin â materion sy'n codi.

### **Cyflawni Prosiectau**

Er mwyn cyflawni'r rhaglen genedlaethol bydd angen cofnodi gwybodaeth am y modd y rheolir prosiectau, megis perfformiad ariannol, cynnydd a risgiau, yn gyson ac yn rheolaidd. Mae hyn yn arbennig o bwysig am mai rhaglen dreigl genedlaethol yw hon, fydd yn cael ei rheoli er mwyn bodloni cyllidebau blynyddol. Er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno adroddiadau misol ar brosiectau a rhaglenni mae'n debyg y bydd gofyniad i bob Awdurdod Rheoli Perygl ddefnyddio system adroddiad gwmwl gyffredin.

Byddem yn disgwyl i'r adroddiadau hyn gael eu cyflwyno'n fisol. Bydd angen coladu a chydgysylltu'r adroddiadau hyn mewn un man. Bydd hyn yn golygu y gellir monitro cynnydd a chyflwyno adroddiadau arno i 'Fwrdd y Rhaglen' a thynnu sylw at yr angen i gymryd camau unioni lle y bo angen.

Mae angen diffinio'r fframwaith rheoli prosiectau sydd i'w ddefnyddio (e.e. Prince2), a dylid disgwyl i bob prosiect gydymffurfio â'r fframwaith hwn, mewn modd cymesur. Mae hyn yn cynnwys yr angen am ddiffiniadau rôl clir ar gyfer rolau prosiectau allweddol e.e. Swyddog Gweithredol Prosiect, Rheolwr Prosiect, er mwyn sicrhau bod yr hyn a ddisgwylir ac sy'n ofynnol gan staff yn y rolau hyn yn glir i bob sefydliad cyflawni.

At hynny, dylai fod canllawiau ar ddiffinio goddefiannau y disgwylir i dimau prosiect reoli eu prosiectau o'u mewn a'r tu hwnt iddynt byddai disgwyl iddynt gyfleu eithriadau i Fwrdd y Rhaglen i'w hystyried.

## C.12. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhoi gerbron?

Sylwadau pellach fel a ganlyn:

### **Rheoli rhaglen dreigl er mwyn cyflawni targedau ariannol yn ystod blwyddyn**

Mae ei heriau penodol ei hun hefyd yn gysylltiedig â rheoli rhaglen o brosiectau er mwyn cyflawni targedau blynyddol. Gall cyflawni'r rhaglen genedlaethol fod yn sensitif iawn i'r broses o gyflawni nifer fach o brosiectau mawr. Gall prosiectau unigol ymestyn dros nifer o flynyddoedd, o'r asesiad cychwynnol i'r adeg y cwblheir y gwaith o'u cyflawni. Gall diffyg sicrwydd a hyder o ran cyllid yn y dyfodol amharu ar y gwaith o gynllunio a chyflawni prosiectau yn effeithlon. Pe bai gan Awdurdodau Rheoli Prosiect fwy o hyder a sicrwydd o ran cyllid yn y dyfodol dros, dyweder, dair i bum mlynedd byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl i ganlyniadau gael eu cyflawni yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Rydym yn cefnogi'r cysyniad o ddyrannu arian fesul cam. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, asesiadau cychwynnol, arfarnu opsiynau ar gyfer prosiectau, cynllunio ac adeiladu. Dylai hyn gynnwys 'pyrth' priodol gyda phenderfyniadau i fwrw ymlaen â phrosiectau, neu beidio â bwrw ymlaen â hwy, ar gerrig milltir allweddol. Ni ddylid caniatáu i ymrwymiad i ariannu gwaith datblygu cynnar ddatblygu'n ymrwymiad penagored i brosiect sy'n mynd yn fwy costus neu nad yw'n ddichonadwy mwyach.

Hefyd, mae risgiau cynhenid yn gysylltiedig â chyflawni prosiectau adeiladu a gall costau gynyddu a lleihau, gan gynnwys prosiectau y dangosir eu bod yn annichonadwy ar ôl cwblhau'r gwaith datblygu cychwynnol. Mae angen sicrhau bod FaCIP yn gyffredinol yn ddigon hyblyg i ymdopi â'r ansicrwydd hwn. Bydd angen ymgorffori technegau rheoli rhaglenni, megis gorraglennu a gorddyrannu er mwyn darparu ar gyfer risg ac ansicrwydd. Mae angen cydbwysu hyn â gorymrwymo ar gyllidebau sydd ar gael ac mae'n gofyn am sgiliau a phrofiad da ym maes rheoli rhaglenni a phrosiectau er mwyn rheoli'n effeithiol.

### **Trosglwyddo a Gweithredu FaCIP**

Yn ein barn ni, mae'n bwysig bod FaCIP yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted ag y bo'n ymarferol er mwyn sicrhau'r manteision a nodir yn y ddogfen ymgynghori. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r broses o drosglwyddo i'r *'ffordd newydd o weithio* sy'n ofynnol gan FaCIP gael ei chyflawni mewn ffordd a gynlluniwyd ac a reolir. Mae angen hyn er mwyn sicrhau nad amherir ar y gwaith o gyflawni prosiectau yn ystod y broses drosglwyddo a bod pob Awdurdod Rheoli Prosiect yn deall sut y bydd FaCIP yn gweithredu a'r gofynion arnynt. Mae'n debyg y bydd hyn yn gofyn am lunio canllawiau a chynllun cyfathrebu.

Mae hefyd yn debygol, yn ystod blynyddoedd cynnar FaCIP, y bydd angen dyrannu rhywfaint o arian ar sail y ffyrdd presennol o weithio er mwyn helpu i gwblhau gwaith sy'n mynd rhagddo. Yn yr un modd, wrth drosglwyddo i ganllawiau arfarnu newydd, bydd angen mabwysiadu ymagwedd resymegol tuag at ddilysrwydd cwblhau arfarniadau sydd eisoes yn mynd rhagddynt. Fel arall, mae risg y bydd angen ailystyried gwaith a chostau diangen cysylltiedig.

### **Gwerthuso atebion caled a meddalach traddodiadol**

Ni ddylai proses gyffredinol FaCIP, yn fwriadol nac yn anfwriadol, ysgogi ymyriadau byrdymor

megis amddiffynfeydd wedi'u peiriannu, lle y gall fod angen ariannu atebion mwy priodol drwy ddyrannu symiau llai yn aml. Gallai enghreifftiau gynnwys opsiynau ar gyfer rheoli ac adfer traethau y gallai fod eu hangen o bryd i'w gilydd ac a allai wella/ategu atebion mwy traddodiadol ar ffurf amddiffynfeydd caled.

**Materion eraill i'w hystyried wrth ddatblygu FaCIP**

- Cyfraddau grantiau Awdurdodau Lleol - dylid eu symleiddio a'u rhesymoli cymaint â phosibl.
- Bydd angen canllawiau er mwyn esbonio sut y bydd FaCIP yn ystyried cyfraniadau ariannol lleol, cynigion partneriaethau a'r effaith ar brosesau blaenoriaethu a dyrannu.
- Bydd angen canllawiau er mwyn esbonio sut y bydd FaCIP yn ystyried gwaith ar ôl digwyddiad.

Diolch am roi o'ch amser i gyflwyno eich sylwadau i ni. Nid ydym yn bwriadu cydnabod ymatebion unigol oni fyddwch yn rhoi 'X' yn y blwch isod.

<b>A fydddechystal â chydnabod yr ymateb hwn.</b>	X
Cyfeiriad e-bost ar gyfer cydnabod yr ymateb: ann.purser@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk	

**Diolch am roi o'ch amser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.**

Dylid anfon ymatebion wedi'u cwblhau i'r cyfeiriad a nodir isod erbyn **6 Mawrth 2015**. Dylid cwblhau'r ffurflen ymateb yn electronig os yw'n bosibl a'i hanfon i

[FloodCoastalRisk@wales.gsi.gov.uk](mailto:FloodCoastalRisk@wales.gsi.gov.uk) Fel arall, gellir anfon ymatebion drwy'r post at:

David Sargent, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, yr Is-adran Llifogydd a Dŵr Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.